**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 90G**

# Rhybudd o Gynnig i Adeiladu Estyniadau i'r Palmant gyda system flaenoriaeth yng Nglan-yr-Afon, Treffynnon, Sir y Fflint

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn gan Gyngor Sir y Fflint yn unol ag Adran 90G Deddf Priffyrdd 1980, ei fod yn bwriadu ymestyn y palmant gyda system flaenoriaeth, yn unol ag Adran 90G y Ddeddf honno, ar y ffordd a nodir yn Atodlen yr Hysbysiad hwn.

Bydd y cynnig yn cynnwys estyniad i'r palmant gyda system flaenoriaeth rhwng Tafarn y White Lion a Bwthynnod Glan yr Afon, Glan-yr-afon, a bydd yn cydymffurfio'n llwyr gyda darpariaethau Rheoliadau Priffyrdd (Arafu Traffig) 1999.

**Rheswm dros y cynnig:** Bydd yr estyniad i'r palmant yn creu toriad naturiol i lif y traffig ac yn lleihau cyflymder cerbydau, gan wella diogelwch cerddwyr yn sylweddol. Drwy gulhau'r briffordd, a gwella ymwybyddiaeth gyrwyr, bydd y nodwedd yn creu amgylchedd mwy diogel, mwy cyfforddus i gerddwyr mewn ardal lle nad oes troedffordd ffurfiol. Mae'r dyluniad yn annog i gerddwyr ddefnyddio'r ffordd, yn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr, ac yn creu amgylchedd stryd tawelach, sy'n fwy addas i gerddwyr.

Mae copi o'r hysbysiad hwn a chynllun yn dangos lleoliad arfaethedig yr estyniad i'r palmant ar gael i'w gweld yn ystod oriau agor arferol Sir y Fflint yn Cysylltu, 24 Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7LH. Bydd y dogfennau hefyd ar gael i'w gweld ar-lein ar ein gwefan, sef www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu ffonio 01352 701234.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig uchod i'r unigolyn isod yn y cyfeiriad isod (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TC/123/LS/Glan) erbyn 20 Chwefror 2026.


## ATODLEN

**GLAN-YR-AFON, TREFFYNNON**

**Estyniad i'r palmant,** tua 2.0 metr o hyd, 1.50 metr o led rhwng Tafarn y White Lion a Bwthynnod Glan yr Afon, Glan-yr-afon.

Dyddiedig Dydd Gwener 30 Ionawr 2026

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
Yr Wyddgrug.
CH7 6LG




Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Streetscene

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

DRAWN BY: KJ

CHECKED BY: LS

RHAGARWEINIOL

| AMENDMENTS: | DATE |
| --- | --- |
| | |

Glan Yr Afon

DRAWING NUMBER: 21203 01 A